



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**



Mae cofrestru'n newid, 2022:

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

Mai 2022

Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru

South Gate House

Wood Street

Caerdydd

CF10 1EW

Rhif ffôn: 0300 3033 444 Minicom: 029 2078 0680

E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru

gofalcymdeithasol.cymru

Twitter: @GofalCymdeithasolCymru

© 2022 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhychu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw na'i thrawsyrru ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd Gofal Cymdeithasol Cymru. Dylai ymholiadau ynglŷn ag atgynhychu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddwyd uchod.

Fformatau eraill:

Mae'r ddogfen hon ar gael ar ffurf hawdd ei darllen, testun bras neu mewn fformatau eraill, os bydd angen. Mae copïau ar gael yn Saesneg hefyd.

Cynnwys

Manylion cyswllt	2
Crynodeb gweithredol	4
Sut byddwn yn symud ymlaen.....	4
Asesiad gan gyflogwr.....	4
Lleihau'r amser i gofrestru	4
Lleihau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) o 90 i 45 awr ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol	5
DPP sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau.....	5
Effeithiau ar y Gymraeg.....	5
Effeithiau ar nodweddion gwarchoddedig.....	5
Cyflwyniad	6
Cefndir i ymgynghoriad 2022 'mae cofrestru'n newid'.....	6
Ffordd newydd o gofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol	8
Yr hyn roeddem eisiau ei newid.....	8
Yr hyn a ddywedoch	8
Yr hyn y byddwn yn ei wneud.....	9
Lleihau'r amser i gofrestru	Error! Bookmark not defined.
Yr hyn roeddem eisiau ei newid.....	11
Yr hyn a ddywedoch	11
Yr hyn y byddwn yn ei wneud.....	12
Datblygiad proffesiynol parhaus	13
Yr hyn y byddwn yn ei wneud.....	14
Effeithiau ein newidiadau	16
Y Gymraeg	16
Yr hyn a ddywedoch	16
Yr hyn y byddwn yn ei wneud.....	17
Nodweddion gwarchoddedig	18
Yr hyn a ddywedoch	18
Yr hyn y byddwn yn ei wneud.....	19
Crynodeb o'r llinell amser ar gyfer gweithredu	20
Atodiad A: llwybr asesiad gan gyflogwr	21

Crynodeb gweithredol

Sut byddwn yn symud ymlaen

Rydym eisiau sicrhau bod ein system gofrestru'n addas ar gyfer y dyfodol, ac mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth ffurfio ymagwedd newydd.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad hwn. Ar ôl dadansoddi'r hyn a ddywedoch wrthym, bwriadwn symud ymlaen â'r canlynol:

Asesiad gan gyflogwr

Byddwn yn:

- gweithio ar ein systemau i gyflwyno'r llwybr newydd asesiad gan gyflogwr a'i roi ar waith erbyn 26 Mai 2022
- cynhyrchu arweiniad i gynorthwyo cyflogwyr, gan gynnwys fideos gyda chyfarwyddiadau i'ch helpu. Byddwn yn rhoi hyn ar waith erbyn diwedd yr haf 2022
- dileu Cymhwysedd wedi'i Gadarnhau fel llwybr i gofrestru o fis Hydref 2022 ymlaen.

Cymwysterau

Byddwn yn:

- ychwanegu Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd at y rhestr o gymwysterau y gellir eu defnyddio i gofrestru'n gychwynnol erbyn 26 Mai 2022.

Egwyddorion a Gwerthoedd a Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan

Byddwn yn:

- dileu'r Egwyddorion a Gwerthoedd a Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan fel llwybr ar gyfer cofrestru'n gychwynnol o fis Hydref 2022 ymlaen
- parhau i wella Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan a'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd, y gellir eu defnyddio fel adnoddau.

Lleihau'r amser i gofrestru

Byddwn yn:

- yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i ystyried y newid
- sicrhau bod unrhyw newid yn cael ei gyflwyno gyda digon o rybudd, fel bod ymgeiswyr a chyflogwyr yn deall y graddfeydd amser sy'n gysylltiedig.

Lleihau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) o 90 i 45 awr ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol

Byddwn yn:

- lleihau'r lleiafswm oriau DPP y mae'n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol eu gwneud bob tair blynedd o 90 i 45 awr ac yn rhoi hyn ar waith erbyn 26 Mai 2022.

DPP sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau

Byddwn yn:

- archwilio sut gallwn roi hyn ar waith yn y ffordd rydym yn gweithio
- ymgysylltu mwy ynglŷn â DPP.

Effeithiau ar y Gymraeg

Byddwn yn:

- parhau i sicrhau bod ein holl ddogfennau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg
- creu fersiwn ddwyieithog o'r gwaith papur asesiad gan gyflogwr i gynorthwyo'r rhai sy'n defnyddio'r Gymraeg ac yn dysgu Cymraeg
- hyrwyddo ein hadnoddau ynglŷn â [defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle](#) ymhellach.

Effeithiau ar nodweddion gwarchoddedig

Byddwn yn:

- parhau i sicrhau bod ein dogfennau ar gael mewn fformatau hygyrch.

Mae rhagor o wybodaeth am yr ymatebion a gawsom ar gael yn y ddogfen hon.

Cyflwyniad

Cefndir i ymgynghoriad 2022 'mae cofrestru'n newid'

Ym mis Chwefror 2022, cyhoeddodd ymgynghoriad a oedd yn amlinellu ein cynigion ar gyfer:

- ffordd newydd i weithwyr gofal cymdeithasol gofrestru
- lleihau'r amser i gofrestru
- lleihau nifer yr oriau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.

At ddibenion yr ymgynghoriad, roedd y term '**gweithwyr gofal cymdeithasol**' yn golygu:

- gweithwyr gofal preswyl i blant
- gweithwyr gofal cartref
- gweithwyr cartref gofal i oedolion
- gweithwyr canolfan breswyl i deuluoedd.

Nid oedd yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol na rheolwyr gofal cymdeithasol.

Er mwyn sicrhau bod y rhai hynny y gallai'r newidiadau arfaethedig effeithio arnynt yn cael cyfle i wneud sylwadau, gwnaethom y canlynol:

- rhoi'r ddogfen mewn man amlwg ar ein gwefan
- anfon negeseuon atgoffa mynych i annog pobl i gymryd rhan
- cynnal gweminar i helpu pobl i ddeall y newidiadau arfaethedig
- rhoi gwybodaeth am yr ymgynghoriad yn yr e-fwletin
- anfon gwybodaeth am yr ymgynghoriad at unigolion cofrestredig a chyflogwyr.

Roedd y ddogfen ymgynghori ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac roedd fersiynau eraill ar gael ar gais. Derbyniom ymatebion na chyflwynwyd trwy ein harolwg ar-lein hefyd.

Roedd yr ymgynghoriad ar agor am chwe wythnos ac fe ddaeth i ben ar 22 Mawrth 2022.

Cawsom 230 o ymatebion. O'r rhai a ymatebodd, dywedodd 65 y cant eu bod yn ymateb fel unigolyn a dywedodd 35 y cant eu bod yn cynrychioli safbwyntiau sefydliad.

O'r rhai a ymatebodd:

- roedd y nifer fwyaf o unigolion a ymatebodd yn weithwyr gofal cymdeithasol, rheolwyr gofal cymdeithasol a gweithwyr addysgol proffesiynol
- roedd y nifer fwyaf o sefydliadau yn gyflogwyr gofal cymdeithasol, awdurdodau lleol a sefydliadau 'eraill', fel Unsain Cymru, Fforwm Gofal Cymru, Fforwm Darparwyr Cenedlaethol Cymru a'r trydydd sector.

Yn ystod yr ymgynghoriad chwe wythnos, cynhaliom weminar a fynychwyd gan fwy na 90 o bobl. Defnyddiwyd yr adborth o'r digwyddiad hwn, ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriad, i ffurfio'r cynhyrchion, y dulliau a'r raddfa amser ar gyfer eu rhoi ar waith.

Ffordd newydd o gofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol

Yr hyn roeddem eisiau ei newid

Gwnaethom gynnig:

- cyflwyno ffordd newydd o gofrestru, a fydd yn caniatáu i gyflogwyr gymeradwyo cais eu gweithwyr i gofrestru ar ôl eu hasesu yn erbyn rhestr o gymwyseddau. Bydd y llwybr asesiad gan gyflogwr ar gyfer pobl nad oes ganddynt gymhwyster gofynnol ac, ymhen amser, bydd yn disodli'r [Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd](#) a/neu [Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan](#).

Bydd cyflogwyr yn rhoi sicrwydd bod y gweithiwr gofal cymdeithasol yn meddu ar y ddealltwriaeth briodol. Mae'r llwybr yn cydnabod mai cyflogwyr, yn bennaf, sy'n gyfrifol am gymhwysedd eu gweithwyr.

Yr hyn a ddywedoch

Fe ofynnem ni:

- ydych chi'n cytuno â'n cynnig y dylai gweithwyr gofal cymdeithasol nad oes ganddynt y cymwysterau cydnabyddedig gofrestru gan ddefnyddio rhestr o gymwyseddau sy'n cael eu hasesu gan eu cyflogwr?

Eich ymateb:

- ydw: 80%
- nac ydw: 20%

Roedd yr ymatebwyr yn amlwg yn cefnogi ein cynnig i gyflwyno'r llwybr newydd ar gyfer cofrestru. Rhoddodd yr adborth a gawsom syniad i ni o'r hyn yr hoffai ymatebwyr ei weld yn cael ei gynnwys yn y llwybr newydd asesiad gan gyflogwr a sut byddai'n gweithio.

Dyma rai o'r sylwadau a gawsom:

"Hoffem barhau i gofrestru ein staff gan ddefnyddio'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd neu dystysgrif Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan fel opsiynau."

"Yn bersonol, teimlaf fod y Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd wedi sicrhau bod pob gweithiwr yn meddu ar y wybodaeth broffesiynol i ddarparu cymorth diogel, cyfredol ac unigol. Mae hefyd wedi helpu i ymsefydlu'r codau ymarfer proffesiynol a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru."

“Mae'r system bresennol yn dibynnu ar gael cymhwyster. Mae hyn yn hollol anymarferol i fwyafrif y gweithwyr cymorth gofal iechyd. Byddai asesiad cymwyseddau'n haws i'w weinyddu.”

“Bydd y syniad o reolwyr yn gweithio gyda staff newydd i sicrhau cymhwysedd ar gam cynnar yn sicr o gefnogi proses ddi-dor o ddatblygu staff ar hyd eu gyrfa. Rydym yn cytuno mewn egwyddor â'r cynnig i gyflwyno proses gofrestru wedi'i seilio ar asesu cymwyseddau gan y cyflogwr. Mae'r broses bresennol yn feichus ac yn gofyn i weithwyr gofal ymrwymo cryn dipyn o amser personol, nad yw'n fuddiol o ran recriwtio a chadw; mae'n arwain at gost ychwanegol i'r cyflogwr o ran ôl-lenwi gan nad oes llawer o gapasiti yn y sector; ac mae'n feichus hefyd i Reolwyr Cofrestredig o ran goruchwyllo ac asesu.”

“Rydym yn llwyr gefnogi'r cynigion a bydd hyn yn galluogi dull rhagweithiol a system gefnogi i sicrhau bod gweithwyr gofal cymdeithasol yn cael eu cofrestru. Bydd y dull hwn yn helpu i fynd i'r afael â'r heriau presennol o ran recriwtio a chadw drwy symud oddi wrth fframwaith cymwysterau beichus.”

“Bydd asesiad o gymwyseddau gan y cyflogwr yn fwy buddiol oherwydd dylai hyn gydbblethu â'r hyfforddiant a'r dysgu a dderbynnir yn ogystal â monitro a goruchwyllo yn y gweithle, heb wneud hyn fel rhan o'r cyfnod prawf a Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan fel y Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd. Bydd hyn hefyd yn arbed amser i mi fel rheolwr, gan na fydd rhaid i mi aros iddynt gael eu cyflwyno, eu marcio ac yna, os na fydd pob un yn pasio, aros i'r gweithiwr newid ac ailfarcio.”

Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Gwrandaom ar eich adborth wrth ddatblygu'r fersiwn derfynol o'r dull ([Atodiad A](#)).

Rydym bellach yn gweithio gyda'n datblygwyr systemau i integreiddio'r llwybr newydd hwn i'n system TG, a disgwylw'n lansio'r llwybr newydd yn hwyr yn y gwanwyn.

Yn ystod yr haf, gobeithiwn ddatblygu rhai fideos byr gyda chyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio'r llwybr newydd hwn.

Cawsom adborth y bu'n anodd cwblhau'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd cyn cofrestru, a bydd yr asesiad newydd gan gyflogwr yn cael ei groesawu fel llwybr amgen. Cawsom adborth hefyd fod rhai cyflogwyr wedi ymgorffori cwblhau'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd yn eu prosesau sefydlu, a bod hyn yn gweithio'n dda.

Gan ymateb i hyn, byddwn yn cadw'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd/Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan **dros dro** fel llwybr i gofrestru hyd at fis Hydref 2022. Bydd hyn yn golygu, o'r gwanwyn tan fis Hydref 2022, bydd gweithwyr gofal cymdeithasol yn gallu cofrestru gan ddefnyddio'r canlynol:

1. llwybr cymwysterau
2. llwybr cymhwysedd wedi'i gadarnhau (i'w ddileu ym mis Hydref 2022)
3. y Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd a/neu Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan (i'w dileu ym mis Hydref 2022)
4. asesiad gan gyflogwr (i'w gyflwyno ym mis Mai 2022).

Ar ôl mis Hydref 2022, ni fydd gweithwyr gofal cymdeithasol yn gallu cofrestru mwyach gan ddefnyddio'r llwybr cymhwysedd wedi'i gadarnhau na thrwy gwblhau'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd a/neu Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan. Bydd gweithwyr gofal cymdeithasol yn gallu cofrestru dim ond trwy ddefnyddio'r:

1. llwybr cymwysterau
2. asesiad gan gyflogwr.

Bydd Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan a'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd ar gael o hyd ar ôl mis Hydref 2022 a byddant yn parhau i fod yn adnoddau pwysig, y byddwn yn parhau i'w hyrwyddo a'u datblygu.

Bydd yn ofynnol i weithwyr gofal cymdeithasol gwblhau Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan cyn adnewyddu eu cofrestriad ymhen tair blynedd. Bydd angen i weithwyr gofal cymdeithasol sy'n defnyddio'r [llwybr asesiad gan gyflogwr](#) gwblhau'r cymwysterau a restrir yn y [fframwaith cymwysterau](#) o fewn tair blynedd.

Wrth ddangos tystiolaeth yn yr asesiad gan gyflogwr, gall cyflogwyr ddefnyddio'r offer a'r dulliau sy'n rhan o'u systemau a'u prosesau sefydlu. Gallai hyn gynnwys adolygiadau cyfnod prawf, sesiynau goruchwyllo a chwblhau'r cyfnod sefydlu.

Cawsom adborth hefyd ynglŷn â chynnwys y cymhwyster Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd fel llwybr i gofrestru. Cytunwn fod hyn yn ymddangos yn ddull synhwyrol a byddwn yn ychwanegu'r Craidd at y rhestr o gymwysterau ar gyfer cofrestru. Bydd angen i'r rhai sy'n cofrestru trwy'r Craidd gwblhau'r cymhwyster Lefel 2 cyn adnewyddu.

Byddwn yn adolygu'r llwybr asesiad gan gyflogwr yn yr hydref. Os bydd gennych unrhyw adborth arno, anfonwch neges e-bost atom ar llwybradborth@gofalcymdeithasol.cymru. Os bydd arnoch angen cymorth i gofrestru aelod o staff neu gymeradwyo cyflogai, cysylltwch â'n [tîm cofrestru](#).

Lleihau'r amser i gofrestru

Yr hyn roeddem eisiau ei newid

Gwnaethom gynnig:

- gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) i leihau'r amser cyn y mae'n rhaid i weithiwr gofal cymdeithasol gofrestru i'r cyfnod blaenorol o chwe mis.

O dan y rheoliadau, mae'n rhaid i staff gofal sy'n gweithio mewn cartrefi gofal i blant, llety diogel neu wasanaethau cymorth cartref gofrestru gyda ni o fewn chwe mis o'r dyddiad maen nhw'n dechrau cyflogaeth.

Wrth ymateb i amgylchiadau eithriadol y pandemig Covid-19, ymestynnodd AGC y cyfnod gras dros dro i 12 mis ar gyfer pob cyflogai newydd yn y gwasanaethau hyn. Gwnaeth AGC y penderfyniad hwn i helpu darparwyr i recriwtio a chadw staff ychwanegol pan oedd arnynt eu hangen fwyaf.

Ond mae'r amser estynedig hwn yn golygu nad yw gweithwyr yn ymddangos ar y Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol sydd ar gael i'r cyhoedd. Nid ydynt ychwaith yn destun yr un oruchwyliaeth â gweithwyr cofrestredig.

Yr hyn a ddywedoch

Fe ofynnem ni:

- ydych chi'n cytuno â'n cynnig i leihau'r amser y mae'n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol gofrestru o 12 mis i chwe mis pan fydd y model asesiad gan gyflogwr yn cael ei gyflwyno?

Eich ymateb:

- ydw: 52%
- nac ydw: 48%

Dyma rai o'r sylwadau a gawsom:

"Bydd lleihau'r cyfnod cofrestru yn ôl i chwe mis yn cyd-fynd â mwyafrif y cyfnodau prawf. Os yw aelod o staff yn gymwys i gwblhau cyfnod prawf yn llwyddiannus, fe ddylai fod yn gymwys i gofrestru."

"Nid yw chwe mis yn ddigon hir i weld a ydynt yn mwynhau'r rôl neu'n addas ar ei chyfer."

“Er ein bod yn cytuno ei bod yn rhesymol i’r graddfeydd amser gael eu lleihau yn ôl i chwe mis pan fo’n “briodol”, ni ddylai’r amseru fod yn seiliedig ar yr amgylchiadau eithriadol a ddeilliodd o’r pandemig Covid yn unig, ond yn hytrach ar yr effeithiau tymor hwy ar y sector – y capasiti i ddarparu gwasanaethau ar adeg pan fo anghenion unigolion wedi cynyddu; lles ac iechyd meddwl cyflogwyr; a chynaliadwyedd gwasanaethau.”

“Am y tro, credaf y dylai’r cyfnod cofrestru aros yn 12 mis. Mae Covid o gwmpas o hyd ac yn effeithio ar gartrefi preswyl. Os gellir adolygu’r sefyllfa ymhen blwyddyn ac os yw pethau’n well, yna ie, gellir lleihau’r gofynion cofrestru i chwe mis.”

“Mae’r llwyth gwaith wedi cynyddu ar bob lefel o ganlyniad i’r pandemig. Hefyd, mae’n anodd recriwtio staff gofal. Felly, byddai’n ddefnyddiol iawn ymestyn y cyfnod cofrestru tan 2023 i roi amser i ganolbwyntio ar recriwtio staff gofal newydd.”

“Rydym yn pryderu y bydd byrhau’r terfynau amser yn anodd i ddarparwyr ei reoli yn awr, o ystyried y pwysau sy’n eu hwynebu ar hyn o bryd. Mae’r sefyllfa staffio’n ddifrifol o hyd. Deallwn y pryderon ynglŷn â thryloywder y gofrestr a chefnogwn gyfnod cofrestru chwe mis yn y tymor hir, ond nid ydym yn credu bod y sefyllfa wedi gwella i’r pwynt lle y mae’n briodol dileu’r mesur eithriadol hwn.”

Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Ymestynnwyd y cyfnod gras i 12 mis fel mesur dros dro.

Mae rhai o’r sylwadau ynglŷn â chadw’r cyfnod 12 mis ar gyfer cofrestru yn gysylltiedig â’r anhawster i gwblhau’r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd o fewn chwe mis.

Credwn y bydd y llwybr newydd asesiad gan gyflogwr yn gwneud y broses yn symlach i weithwyr gofal cymdeithasol ac yn caniatáu iddynt gofrestru’n gynharach, gan na fydd rhaid iddynt gwblhau’r dyfarniad llawn cyn cofrestru. Er mwyn i rywun gofrestru, bydd angen iddo ddangos ei fod yn **addas i ymarfer**, a fydd yn cael ei benderfynu gan y cyflogwr trwy ei brosesau sefydlu.

Gall gweithwyr gofal cymdeithasol wneud cais i gofrestru unrhyw bryd. Er enghraifft, gallai aelod newydd o staff sy’n ymuno â sefydliad sy’n meddu ar y cymhwyster priodol gofrestru ar unwaith.

Bydd dychwelyd i chwe mis yn caniatáu i fwy o’r gweithlu fod ar y Gofrestr yn gynt. Credwn y bydd hyn yn diogelu’r cyhoedd yn well ac yn cyd-fynd â’r ddeddfwriaeth unwaith eto.

Trwy weithio gydag AGC, byddwn yn lleihau’r cyfnod. Byddwn yn cadarnhau pryd bydd y newid hwn yn cael ei gyflwyno, gan roi digon o rybudd fel y bydd ymgeiswyr a chyflogwyr yn gwybod yr amserlenni cysylltiedig yn glir.

Datblygiad proffesiynol parhaus

Lleihau nifer yr oriau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) y mae'n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol eu gwneud i adnewyddu eu cofrestriad.

Yr hyn roeddem eisiau ei newid

Gwnaethom gynnig:

- **lleihau** faint o DPP y mae'n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol ei wneud i adnewyddu eu cofrestriad, o 90 awr i **45 awr**
- datblygu **ymagwedd wedi'i seilio ar ganlyniadau** at DPP, a fydd yn caniatáu i bobl ar y Gofrestr gymhwyso eu gwybodaeth trwy fyfyrion a dangos sut maen nhw'n bodloni gofynion y [Côd Ymarfer Proffesiynol](#) pan fyddant yn darparu gofal a chymorth.

Ar hyn o bryd, mae'n rhaid i bawb sydd wedi'i gofrestru gyda ni ddangos tystiolaeth o [90 awr o DPP priodol](#) dros y cyfnod cofrestru tair blynedd. Credwn fod y system bresennol yn heriol i weithwyr gofal cymdeithasol ac rydym eisiau lleihau nifer yr oriau DPP.

Cydnabyddwn hefyd fod y system bresennol yn rhoi mwy o bwys ar ddysgu a datblygiad ffurfiol, er ein bod yn gwybod bod profiad ymarferol yn aml yr un mor effeithiol ag astudio. Felly, rydym eisiau symud tuag at ffordd o gofnodi dysgu sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn y dyfodol.

Yr hyn a ddywedoch

Fe ofynnem ni:

- ydych chi'n cytuno â'n cynnig i leihau faint o DPP y mae'n rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol ei wneud i adnewyddu eu cofrestriad, o 90 awr i 45 awr?

Eich ymateb:

- ydw: 77%
- nac ydw: 23%.

Fe ofynnem ni hefyd:

- ydych chi'n cytuno â'n cynnig i symud tuag at ymagwedd at DPP sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn y dyfodol?

Eich ymateb:

- ydw: 86%
- nac ydw: 14%.

Dyma rai o'r sylwadau a gawsom:

“Mae'r newidiadau hyn, gan gynnwys lleihau'r oriau DPP a'r ymagwedd wedi'i seilio ar ganlyniadau, yn swnio fel eu bod o fudd i'r staff gofalu rydym yn eu cofrestru.”

“Dylid dileu'r 90 awr neu'r 45 awr yn gyfan gwbl.”

“Rydym yn llwyr gefnogi lleihau'r gofyniad DPP i 45 awr. Rydym bob amser wedi dadlau bod 90 awr yn anghymesur â rôl a chyflog gweithwyr gofal cymdeithasol o gymharu, er enghraifft, â'r gofyniad i nyrsys lefel gradd gwblhau 35 awr o DPP yn yr un cyfnod.”

“Mae 45 awr yn ymddangos yn fwy cyflawnadwy o lawer.”

“Yn sgil lleihau i 45 awr ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol, rwy'n credu y bydd sail fwy myfyriol ar gyfer gwaith datblygu sy'n cael ei wneud yn cynorthwyo staff yn well i ystyried sut maen nhw'n datblygu, ac nid oes angen iddo fod yn “gyrsiau” ar hyfforddiant craidd yn unig. Bydd hefyd yn helpu i ddatblygu a chynnal gweithlu sy'n myfyrio, ac mae hyn yn bodloni'r gofyniad ar gyfer y cymwysterau newydd hefyd.”

“Byddai 45 awr o hyfforddiant dros dair blynedd yn cyfateb i hyfforddiant gorfodol sylfaenol a byddai'n dileu unrhyw gyfrifoldeb ar sefydliadau i ddarparu hyfforddiant ychwanegol a fyddai o fudd i'r bobl maen nhw'n eu cynorthwyo.”

“Newyddion gwych ynglŷn â lleihau DPP (a'i ailenwi o Hyfforddiant a Dysgu Ôl-Gofrestru (PRTL)) i 45 awr. Roedd y 90 awr yn arbennig o heriol i'n model ni gan fod y rhan fwyaf o weithwyr cymorth yn gweithio i un cleient yn unig, ac felly mae'r cyfle neu'r angen am hyfforddiant ffurfiol yn gyfyngedig ac mae'r cyfle i ddod ar draws sefyllfaoedd newydd yn gyfyngedig. Mae llawer o'n gweithwyr cymorth yn gweithio llai nag 16 awr yr wythnos ac felly nid ydynt yn gallu cael y cymhwyster sy'n ofynnol, felly nid ydynt yn gallu adnewyddu eu cofrestriad.”

“Dylid canolbwyntio ar berthnasedd ac ansawdd hyfforddiant, yn hytrach nag oriau yn unig (nid yw hyn yn ymarferol i fyfyrwyr, staff rhan-amser – nid yw'n ffafriol i weithlu hyblyg). Dylid canolbwyntio ar ganlyniadau, gan ymsefydlu dysgu mewn ymarfer i wella ansawdd gofal.”

Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Byddwn yn lleihau nifer yr oriau DPP y mae'n rhaid i **weithwyr gofal cymdeithasol** eu gwneud i adnewyddu eu cofrestriad o 90 awr i 45 awr. Bydd rhaid i weithwyr

cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol gwblhau 90 awr o DPP o hyd. Bwriadwn roi'r newid hwn ar waith erbyn diwedd y gwanwyn.

Roedd yr adborth ynglŷn â'r gofynion DPP yn amrywio o ddileu'r gofyniad am DPP yn gyfan gwbl i'w gadw ar 90 awr. Rydym wedi ymrwmo i broffesiynoli'r gweithlu gofal cymdeithasol ac yn gwybod bod ennill cymwysterau a chwblhau DPP yn bwysig wrth ddatblygu gweithlu sy'n fwy medrus.

Roedd cytundeb cryf yn yr adborth y byddai lleihau'r oriau yn well yn ymarferol. Mae'n bwysig pwysleisio er bod yr oriau DPP yn cael eu lleihau i 45 awr, **gofyniad lleiaf** yw hyn at ddibenion cofrestru. Gall cyflogwyr a chyflogeion barhau i wneud mwy o hyfforddiant y tu hwnt i'r 45 awr os yw hyn yn gweddu i ddulliau datblygu staff a dilyniant llwybr gyrfa.

Byddwn yn adolygu sut gallwn symud ymlaen tuag at ymagwedd at DPP sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a byddwn yn gweithio gyda'r sector ar sut gallwn roi hyn ar waith.

Cawsom nifer o sylwadau ac awgrymiadau hefyd ynglŷn â sut i fynd i'r afael â DPP yn y dyfodol. Roedd y rhain y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn a'r newidiadau arfaethedig y bwriadwn eu gwneud. Fodd bynnag, cydnabyddwn y gallwn wneud mwy i wella'n barhaus ac anelwn at gynnal mwy o waith ymgysylltu i edrych ar DPP yn fanylach.

Effeithiau ein newidiadau

Yn rhan o'r ymgynghoriad, fe ofynnem i chi ddweud wrthym sut gallai'r newidiadau effeithio ar y Gymraeg a phobl â nodweddion gwarchoddedig.

Y Gymraeg

Yr hyn a ddywedoch

Fe ofynnem ni:

- ba effeithiau y bydd ein cynigion yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol:
 - cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
 - peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- sut gallem gynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r rhai negyddol?

Dyma rai o'r sylwadau a gawsom:

“A allwn ni ddechrau trwy gadarnhau cydraddoldeb o ran croesawu cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg (fel y dangowyd gan yr arolwg hwn)?”

“Mae'n bosibl, gyda'r gostyngiad mewn oriau DPP, y bydd lleihad yn y cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg. Gall arwain at lai o bwyslais ar hyfforddi staff yn gyffredinol.”

“Parhau i gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau ei bod yn cael ei hymgorffori ar draws dysgu a datblygiad.”

“Ar yr amod bod yr holl ddeunyddiau'n cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog a bod cyfleoedd hyfforddi ar gael yn ddwyieithog, ni ddylai fod unrhyw effeithiau negyddol.”

“Nid ydym yn rhagweld unrhyw effaith benodol ar y Gymraeg, heblaw y bydd y dull newydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i gyflogeion ddefnyddio'r Gymraeg ar ei ffurf lafar i gefnogi eu cofrestriad, gan felly ei gwneud yn fwy cynhwysol.”

“Dylid ei wneud yn hawdd ei ddefnyddio ac fe ddylai gael ei gyfieithu'n iawn. Rwy'n siaradwr Cymraeg iaith gyntaf a byddwn wrth fy modd petai mwy o bobl yn dysgu a defnyddio ein hiaith.”

“Rydym yn cymryd camau pendant i annog y Gymraeg o'r cyfnod sefydlu drwy gydol rolau gwaith. Mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Byddai cymhorthion cof poced yn ddefnyddiol i helpu staff nad ydynt yn siarad Cymraeg gyda geiriau allweddol y gallai unigolion eu defnyddio. Hefyd, arwyddion gweledol allweddol sy'n ddwyieithog.”

Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Roedd rhai awgrymiadau defnyddiol ynglŷn â sut gallwn gael effaith gadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg. Byddwn yn parhau i sicrhau bod yr hyn a gynhyrchwn yn glir a'n bod yn defnyddio iaith pob dydd.

Yn ogystal â chynhyrchu'r gwaith papur asesiad gan gyflogwr yn Gymraeg ac yn Saesneg, byddwn yn cynhyrchu fersiwn ddwyieithog hefyd. Gall y fersiwn hon gael ei defnyddio gan bobl sy'n dysgu Cymraeg neu sydd eisiau ceisio gwella eu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

Awgrymodd sawl unigolyn y byddai'n ddefnyddiol cael mynediad at adnoddau Cymraeg y gallai staff eu defnyddio. Mae amrywiaeth o adnoddau ar gael ar ein gwefan eisoes, sef ['Defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle'](#), a byddwn yn parhau i gynyddu ymwybyddiaeth ohonynt.

Nodweddion gwarchoddedig

Yr hyn a ddywedoch:

Fe ofynnem ni:

- ba effeithiau y bydd ein cynigion yn eu cael ar bobl â nodweddion gwarchoddedig, yn benodol:
 - oedran
 - anabledd
 - ailbennu rhywedd
 - priodas a phartneriaeth sifil
 - beichiogrwydd a mamolaeth
 - hil
 - crefydd neu gred
 - rhyw
 - cyfeiriadedd rhywiol
- sut gallem gynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu leihau'r rhai negyddol?

Dyma rai o'r sylwadau a gawsom:

“Efallai y bydd menywod, pobl anabl, gweithwyr hŷn a'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu yn fwy tebygol o geisio cyflogaeth ran-amser. Rydym wedi codi pryderon yn flaenorol bod proses gofrestru Gofal Cymdeithasol Cymru wedi'i chyfeirio'n fwy at y syniad o weithiwr gofal proffesiynol amser llawn ac efallai nad yw'n cyfrif am y rhai sy'n gwneud gwaith gwerthfawr yn y sector ar sail ran-amser neu fwy achlysurol. Bydd lleihau'r oriau DPP yn fuddiol i gyflogeion rhan-amser y mae'r gofyniad 90 awr wedi bod yn anghymesur â nifer yr oriau maen nhw'n gallu gweithio.”

“Dylai'r cynigion ar gyfer llwybr llai beichus tuag at gofrestru gael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd cyflogaeth ar gyfer pobl â nodweddion gwarchoddedig wrth ymuno â'r sector gyntaf. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn adran 5, ni ddylem gollir cyfle i edrych ar effeithiau'r gofynion cymwysterau ar gyflogaeth tymor hir ar gyfer pobl sydd eisiau aros yn y sector y tu hwnt i dair blynedd.”

“Efallai y bydd angen i unigolyn ag anableddau gael ychydig yn fwy o amser i'w gwblhau, ac mae'n rhaid cymryd hynny i ystyriaeth.”

“Bydd yn gwneud y broses yn fwy cynhwysol oherwydd bydd canolbwyntio mwy ar ganlyniadau'n cefnogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae'n rhoi staff rhan-amser dan anfantais ar hyn o bryd.”

“Anabledd. Nid yw pawb yn gallu cyflawni'n academaidd i gofrestru, ond maen nhw'n dda wrth eu gwaith, a bydd hyn yn gwneud y broses yn fwy hygyrch iddynt.”

“Efallai y bydd angen i rywun ag anabledd gael fformat gwahanol neu efallai y bydd angen iddo gael mwy o amser i gwblhau'r broses gofrestru.”

Yr hyn y byddwn yn ei wneud

Byddwn yn parhau i greu cynhyrchion sy'n bodloni'r safonau hygyrchedd mewn amrywiaeth o fformatau, a byddwn yn ceisio cynhyrchu arweiniad fideo yn hwyr yn y gwanwyn i gefnogi'r llwybr newydd asesiad gan gyflogwr.

Mynegwyd pryderon ynglŷn â gallu cyflogeion â nodweddion gwarchoddedig i gwblhau gofynion sefydlu'r cyflogwr er mwyn bodloni'r asesiad gan gyflogwr o fewn y raddfa amser chwe mis. Os oes gennych bryderon ynglŷn â hyn, cysylltwch â'n tîm Cofrestru a fydd yn cynnig cyngor ac arweiniad. Dyma eu manylion cyswllt:

0300 303 3444 (opsiwn 1)

ymholiadau@gofalcymdeithasol.cymru

Crynodeb o'r llinell amser ar gyfer gweithredu

2022	
Mis Ebrill i fis Mehefin	<ul style="list-style-type: none">• Cyflwyno'r llwybr asesiad gan gyflogwr.• Ychwanegu Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd at y rhestr o gymwysterau ar gyfer cofrestrriad cychwynnol.• Bydd oriau DPP ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol yn lleihau o 90 awr i leiafswm o 45 awr.• Bydd oriau DPP ar gyfer gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr gofal cymdeithasol yn aros ar 90 awr.
Mis Gorffennaf i fis Medi	<ul style="list-style-type: none">• Cynhyrchu fideos i gynorthwyo cyflogwyr â'r llwybr asesiad gan gyflogwr.
Mis Hydref i fis Rhagfyr	<ul style="list-style-type: none">• Ni fydd Cymhwysedd wedi'i Gadarnhau ar gael mwyach fel llwybr i gofrestru o fis Hydref 2022 ymlaen.• Ni fydd y Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd a Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gael mwyach fel llwybr tuag at gofrestru o fis Hydref 2022 ymlaen, ond byddant yn parhau i fod ar gael fel adnoddau.
2023	
	<ul style="list-style-type: none">• Cymwysterau ac asesiad gan gyflogwr fydd y ddau lwybr y gellir eu defnyddio i gofrestru unrhyw gyflogeion newydd.• Lleihau'r amser i gofrestru o 12 mis i chwe mis.• Ymgysylltu mwy ynglŷn â DPP.

Atodiad A: Llwybr asesiad gan gyflogwr

Asesiad gan gyflogwr ar gyfer cofrestru gweithiwr gofal cymdeithasol

Dylai cyflogwyr ddefnyddio'r [canllaw asesiad gan gyflogwr](#) i benderfynu a yw gweithiwr gofal cymdeithasol yn addas i ymarfer ac a oes ganddo'r ddealltwriaeth briodol i wneud cais i gofrestru gyda ni.

Mae'r cymwyseddau a restrir wedi'u seilio ar ddealltwriaeth gweithiwr gofal cymdeithasol o egwyddorion gofal cymdeithasol yng Nghymru, y bydd arno eu hangen i gyflawni ei rôl.

Dylai cyflogwyr ddarllen y rhestr a chymeradwyo cais y gweithiwr os ydynt yn fodlon bod y gweithiwr yn meddu ar y ddealltwriaeth briodol.

Tystiolaeth

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i weithwyr gofal cymdeithasol ddangos tystiolaeth o'u dealltwriaeth fel rhan o'u cais i gofrestru. Bydd y canllaw hwn yn helpu gweithwyr gofal cymdeithasol a'u cyflogwyr i ddarparu'r dystiolaeth briodol.

Caiff Gofal Cymdeithasol Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) weld sampl o'r dystiolaeth a ddefnyddioch i ategu eich penderfyniad, felly dylech sicrhau ei bod ar gael i ni os gofynnwn amdani. Gallwch ddefnyddio'r [cofnod tystiolaeth](#) hwn i gofnodi'ch tystiolaeth.

Gallai enghreifftiau o dystiolaeth gynnwys y canlynol (ond nid yw'n gyfyngedig iddynt):

- adolygiad o gyfnod prawf a gweithgareddau sefydlu
- cofnodion hyfforddiant neu fynychu cyrsiau
- tystysgrifau a gafwyd trwy hyfforddiant asesedig, fel symud a thrafod, cymorth cyntaf a hylendid bwyd
- nodiadau arsylwi, trafodaethau, goruchwyliaeth a/neu arfarnu
- cyfarfodydd tîm
- cwblhau'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd neu Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan
- adborth gan gydweithwyr a phobl sy'n defnyddio gofal a chymorth.

Sut i gadarnhau asesiad gan gyflogwr

Llenwch yr adrannau perthnasol a rhowch dystiolaeth o sut mae'r gweithiwr gofal cymdeithasol wedi dangos ei ddealltwriaeth briodol.

Yn rhan o'i gais, gofynnir i'r gweithiwr gofal cymdeithasol nodi ei reolwr o restr ar GCCarlein. Cysylltir â'r rheolwr drwy e-bost i gadarnhau'r cais.

Ffurflen asesiad gan gyflogwr

Enw'r gweithiwr:

Enw'r rheolwr:

Darllenwch ac adolygwch y rhestr isod.

Ticiwch y blwch os ydych yn hyderus bod y gweithiwr gofal cymdeithasol yn meddu ar y ddealltwriaeth briodol.

Mae gan y gweithiwr gofal cymdeithasol ddealltwriaeth o'r canlynol:

- Côt Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol
- egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- sut i weithio mewn ffyrdd sy'n ymgorffori dulliau wedi'u seilio ar hawliau ac sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/y plentyn mewn arferion dydd i ddydd
- sut i hyrwyddo a pharchu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- sut i ddefnyddio amrywiaeth o dulliau cyfathrebu ac addasu dulliau cyfathrebu
- pwysigrwydd yr iaith Gymraeg, diwylliant Cymreig a hunaniaeth Gymreig i'r rhai y mae'n eu cynorthwyo
- sut gall credoau, gwerthoedd a phrofiadau'r gweithiwr effeithio ar ei agwedd a'i ymddygiad, a sut gall hyn effeithio ar bobl eraill
- sut i hyrwyddo a chefnogi'r broses o ddiogelu unigolion.

Cymeradwyaeth y cyflogwr

Rwyf yn cadarnhau bod y gweithiwr yn gallu gwneud cais i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

A chithau'n gyflogwr, disgwylir i chi bellach gynorthwyo eich gweithwyr i gwblhau [Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan](#) a chyflawni'r cymwysterau sy'n ofynnol ar gyfer ei rôl o fewn y tair blynedd nesaf. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [ein gwefan](#).

Cofrestru gweithwyr gofal cymdeithasol – llwybr asesiad gan gyflogwr

1. Beth yw'r llwybr cofrestru asesiad gan gyflogwr?

Llwybr newydd yw hwn sy'n caniatáu i gyflogwyr gymeradwyo cais gan eu gweithwyr i gofrestru ar ôl asesu eu dealltwriaeth yn erbyn [rhestr o feysydd](#). Bydd y llwybr hwn ar gyfer pobl nad oes ganddynt gymhwyster gofynnol.

2. Sut penderfynon ni ar y rhestr o feysydd yn yr asesiad gan gyflogwr?

Yng ngoleuni'r pandemig, rydym wedi bod yn edrych ar ein prosesau a'n systemau i sicrhau ein bod yn parhau i gyflawni ein hymrwymiad i ddiogelu'r cyhoedd. Wrth i'r gweithlu gofal cymdeithasol barhau i dyfu, rydym yn gwybod pa mor bwysig ydyw i wneud ein proses gofrestru'n symlach er mwyn helpu annog pobl i weithio ym maes gofal cymdeithasol.

Gwrandaom ar y sector a defnyddio'r adborth a gawsom i lunio'r rhestr hon. Mae'r rhestr wedi'i seilio ar ddeall egwyddorion gofal cymdeithasol yng Nghymru, y bydd eu hangen ar weithiwr gofal cymdeithasol i gyflawni ei rôl. Dylech gynnwys y meysydd hyn yn y sesiwn sefydlu yn y gweithle.

Ar ôl cofrestru, bydd gweithwyr gofal cymdeithasol yn datblygu eu dealltwriaeth ymhellach trwy gwblhau [Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan](#). Bydd hefyd angen iddynt gwblhau'r cymwysterau a restrir yn y [fframwaith cymwysterau](#) o fewn tair blynedd.

3. A fydd yr Egwyddorion a'r Gwerthoedd a Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan ar gael o hyd?

Byddant ar gael o hyd, ond ni fydd gweithwyr yn gallu eu defnyddio i gofrestru o fis Hydref 2022 ymlaen.

4. A oes angen i weithwyr gwblhau Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan o hyd?

Oes, bydd angen i bob gweithiwr gofal cymdeithasol gwblhau [Fframwaith Sefydlu Cymru Gyfan](#).

5. Beth fydd yn digwydd os ydw i wedi dechrau'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd?

Bydd y Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd ar gael fel llwybr i gofrestru tan fis Hydref 2022. Gallwch gwblhau'r Dyfarniad Egwyddorion a Gwerthoedd fel tystiolaeth ar gyfer y llwybr asesiad gan gyflogwr

6. Pwy all gofrestru gan ddefnyddio'r llwybr asesiad gan gyflogwr?

Unrhyw un sydd eisoes yn cael ei gyflogi gan ddarparwr gofal cymdeithasol rheoleiddiedig yng Nghymru fel:

- gweithiwr cartref gofal i oedolion
- gweithiwr gofal cartref
- gweithiwr gofal preswyl i blant
- gweithiwr cymorth mewn canolfan breswyl i deuluoedd.

Mae'n rhaid i'r rheolwr fod yn hyderus bod y gweithiwr yn meddu ar y ddealltwriaeth angenrheidiol, a amlinellir yn yr [asesiad gan gyflogwr](#). Rhaid i gymeradwywyr enwebedig y sefydliad hefyd gadarnhau bod gan y gweithiwr y ddealltwriaeth briodol, trwy broses ymgeisio ar-lein.

7. Beth fydd yn digwydd os nad yw fy nghyflogai'n meddu ar y ddealltwriaeth briodol?

Os nad ydych yn hyderus bod y gweithiwr yn meddu ar y ddealltwriaeth briodol, peidiwch â chymeradwyo ei gais i gofrestru. Yn lle hynny, dylech weithio gyda'ch cyflogai i ddatblygu ei ddealltwriaeth fel ei bod ar lefel briodol.

Os bydd hyn yn cymryd mwy o amser na'r cyfnod sydd ganddo i gofrestru, cysylltwch â'n [tîm cofrestru](#).

8. A fydd angen i weithiwr gofal cymdeithasol sy'n cofrestru gan ddefnyddio'r llwybr asesiad gan gyflogwr gwblhau cymhwyster cyn y gall adnewyddu ei gofrestrriad?

Bydd angen i weithwyr gofal cymdeithasol sy'n defnyddio'r llwybr asesiad gan gyflogwr gwblhau'r cymwysterau a restrir yn y [fframwaith cymwysterau](#) o fewn tair blynedd.

9. Os bydd rhywun yn cofrestru gan ddefnyddio'r llwybr hwn ac yn newid cyflogwr, a fydd ei gofrestrriad yn ddilys o hyd?

Bydd. Mae asesiad gan gyflogwr yn fodd i weithwyr gofrestru, a bydd y cofrestrriad hwn yn ddilys am dair blynedd. Nid yw cofrestrriad yn gysylltiedig â sefydliad; cofrestrriad personol ydyw.

10. Pa dystiolaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer yr asesiad gan gyflogwr?

Rydym wedi llunio [rhestr](#) o'r hyn y mae angen i weithwyr gofal cymdeithasol ei ddeall, ac y mae'n rhaid i'r rheolwr ei asesu.

Defnyddir y rhestr i gadarnhau bod y gweithiwr gofal cymdeithasol yn meddu ar y ddealltwriaeth briodol. Efallai byddwn yn archwilio samplau ac yn gofyn am gopiâu o'r [dystiolaeth](#) a ddefnyddioch i wneud eich penderfyniad. Gwneir hyn er mwyn i ni fod yn fodlon bod gweithwyr yn addas i'w cofrestru.

Gallai rheolwyr sy'n rhoi gwybodaeth anwir fod yn destun achos addasrwydd i ymarfer ac fe allent gael eu dileu o'r Gofrestr o Weithwyr Gofal Cymdeithasol o ganlyniad. Bydd Arolygiaeth Gofal Cymru yn rhoi gwybod i ni os oes ganddi unrhyw bryderon am gymhwysedd unigolyn cofrestredig.

11. Sut mae rheolwr cofrestredig yn asesu a chadarnhau dealltwriaeth gweithiwr gofal cymdeithasol?

Pan fydd y rheolwr a'r gweithiwr yn fodlon bod pob maes wedi'i fodloni, a bod y dystiolaeth wedi cael ei hamlygu, gall y gweithiwr wneud cais i gofrestru.

Bydd angen i'r gweithiwr ddewis y llwybr asesiad gan gyflogwr ar ei gais a dethol ei reolwr cofrestredig.

Anfonir neges e-bost at y rheolwr yn gofyn iddo fewngofnodi i'w gyfrif [GCCarlein](#) a chwblhau'r datganiad yn electronig.

12. Beth os nad oes rheolwr cofrestredig neu os yw'n absennol o'r sefydliad?

Yn absenoldeb rheolwr cofrestredig, mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol ar gyfer eich sefydliad nodi unigolyn perthnasol i asesu a chadarnhau'r cais. Gallai hwn fod yn rheolwr adnoddau dynol neu hyfforddiant sydd â mynediad at gofnodion y gweithiwr gofal cymdeithasol. Nid oes angen i'r unigolyn perthnasol fod wedi'i gofrestru, ond bydd angen iddo ddod yn llofnodwr ar gyfer y sefydliad. Bydd ein tîm cofrestru yn gallu eich helpu gyda hyn.

13. A oes terfyn ar nifer y gweithwyr a all ddefnyddio'r llwybr asesiad gan gyflogwr o unrhyw sefydliad unigol?

Nac oes.

14. A yw datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn berthnasol?

Ydyw. Mae'n rhaid i bob gweithiwr gofal cymdeithasol cofrestredig gwblhau 45 awr o hyfforddiant a dysgu DPP bob tair blynedd.

Gall gweithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig gadw cofnod o'u hyfforddiant a'u dysgu yn eu cyfrif [GCCarlein](#) personol. Fe'u hanogwn i'w ddiweddarau wrth iddynt gwblhau eu hyfforddiant a'u dysgu. Bydd hyn yn gwneud y broses adnewyddu'n gyflymach ac yn haws o lawer iddynt.

15. Gyda phwy y dylwn i gysylltu os bydda' i eisiau rhoi adborth ar y llwybr cofrestru asesiad gan gyflogwr?

Byddwn yn adolygu'r llwybr asesiad gan gyflogwr yn yr hydref. Os oes gennych unrhyw adborth arno, anfonwch neges e-bost atom ar llwybradborth@gofalcymdeithasol.cymru.

Os oes arnoch angen cymorth i gofrestru aelod o staff neu gymeradwyo cyflogai, [cysylltwch â'n tîm cofrestru](#).